Public Document Pack

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Bridgend County Borough Council

Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont, CF31 4WB / Civic Offices, Angel Street, Bridgend, CF31 4WB

*Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Rhowch wybod i ni os mai Cymraeg yw eich dewis iaith.*
*We welcome correspondence in Welsh. Please let us know if your language choice is Welsh.*

**Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaethol / Operational and Partnership Services**
Deialu uniongyrchol / Direct line /: 01656 643147 / 643148
Gofynnwch am / Ask for:  Andrew Rees

Ein cyf / Our ref:
Eich cyf / Your ref:

**Dyddiad/Date:** Dydd Mawrth, 5 Rhagfyr 2017

Annwyl Cynghorydd,

**PWYLLGOR TRWYDDEDU**

Cynhelir Cyfarfod  Pwyllgor Trwyddedu yn Ystafelloedd Pwyllgor 2/3 - Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4WB ar **Dydd Llun, 11 Rhagfyr 2017** am **2.00 pm**.

**AGENDA**

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb
   Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb gan Aelodau.

2. Datganiadau o fuddiant
   Derbyn datganiadau o ddiddordeb personol a rhagfarnol (os o gwbl) gan Aelodau / Swyddogion yn unol â darpariaethau'r Cod Ymddygiad Aelodau a fabwysiadwyd gan y Cyngor o 1 Medi 2008.

3. Cymeradwyaeth Cofnodion — 3 - 6
   I dderbyn am gymeradwyaeth y Cofnodion cyfarfod y 24 Hydref 2017.

4. Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 — 7 - 10

5. Materion Brys
   I ystyried unrhyw eitemau o fusnes y, oherwydd amgylchiadau arbennig y cadeirydd o'r farn y dylid eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol â Rhan 4 (pharagraff 4) o'r Rheolau Trefn y Cyngor yn y Cyfansoddiad.

Yn ddiffuant
**P A Jolley**
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaethol

**Dosbarthiad:**

| Cynghowrwyr | Cynghorwyr | Cynghorwyr |
|---|---|---|

PA Davies
DRW Lewis
JE Lewis
DG Owen
RM James

SE Baldwin
RJ Collins
DK Edwards
B Jones
G Thomas

AA Pucella
JE Williams
MJ Kearn
A Hussain

COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TRWYDDEDU A GYNHALIWYD YN YSTAFELL PWYLLGORA 2/3, SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DYDD MAWRTH, 24 HYDREF 2017, AM 9.30 AM

Presennol

Y Cynghorydd DRW Lewis – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| PA Davies | JE Lewis | RM James | RJ Collins |
| AA Pucella | JE Williams | MJ Kearn | A Hussain |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

DG Owen, SE Baldwin, B Jones a/ac G Thomas

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Nick Dennison | Cyfreithiwr Dan Hyfforddiant |
| Julie Ellams | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Katie Brook | Senior Licensing Technical Officer |
| Daniel Cook | Licensing Policy Officer |

5. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Dim.

6. CYMERADWYAETH COFNODION

PENDERFYNWYD: Cadarnhau bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu ar 23 Mai 2017 yn gywir.

7. POLISI PROFI CERBYDAU HACNI/CERBYDAU HURIO PREIFAT

Cyflwynodd yr Uwch Swyddog Trwyddedu (Technegol) adroddiad a ofynnai i'r pwyllgor ystyried y perygl i'r cyhoedd yn sgil y gyfundrefn brofi bresennol ar gyfer cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat. Gofynnai'r adroddiad hefyd am gymeradwyaeth yr aelodau i ymgynghori â'r fasnach dacsis leol a'r cyhoedd er mwyn diwygio'r polisi profi cerbydau.

Esboniodd yr Uwch Swyddog Trwyddedu (Technegol) mai'r Cyngor oedd awdurdod trwyddedu cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat ac ychwanegodd mai'r awdurdod oedd yn gosod amodau trwyddedu y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn cael trwydded. Un o'r amodau hyn oedd oedran cerbyd i'w gyflwyno i gael trwydded am y tro cyntaf ac, ar ôl ei drwyddedu, pa mor aml y dylid ei gyflwyno i'w brofi. Gellid cynnal profion rheolaidd hyd at 3 gwaith y flwyddyn. Roedd defnyddio cerbyd heb dystysgrif MOT ar ffordd gyhoeddus yn drosedd dan Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988. Fodd bynnag, rhoddwyd caniatâd i gerbydau hacni a cherbydau hurio preifat gael eu heithrio o'r gyfundrefn profion MOT. Y rhesymeg dros hyn oedd bod gan yr Awdurdod Trwyddedu reolaeth uniongyrchol dros gyflwr ei fflyd a, chan hynny, gallai orfodi'i gyfundrefn brofi ei hun a chyflwyno tystysgrifau eithrio rhag profion MOT.

Esboniodd mai'r polisi presennol oedd profi cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat yng nghyfleuster profi'r Cyngor yn Isadran y Gwasanaethau Fflyd, Newlands Avenue, Pen-y-bont ar Ogwr. Roedd cerbydau'n cael eu profi ar hyn o bryd yn unol â gofynion Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ac roeddent yn derbyn Tystysgrif Prawf Eithrio. Nid oedd safon y prawf hwn ddim is na safon y prawf MOT ac roedd yn cynnwys

elfennau ychwanegol a oedd yn ymwneud yn benodol â cherbydau trwyddedig, e.e. sut yr oedd cloeon drws cerbyd yn gweithio.

Ar hyn o bryd, roedd amlder y prawf yn dibynnu ar oedran y cerbyd. Roedd cerbydau dan 5 oed (o ddyddiad y cofrestriad cyntaf) yn cael eu profi ddwywaith y flwyddyn ac roedd cerbydau dros 5 oed yn cael eu profi deirgwaith y flwyddyn.

Y cynnig oedd y byddai cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat yn cael eu profi yn unol â'r gyfundrefn MOT a weinyddir gan yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (y DVSA).

Esboniodd yr Uwch Swyddog Trwyddedu (Technegol) y byddai gofyn i gerbydau hacni a cherbydau hurio preifat gael prawf cydymffurfio ychwanegol, ochr yn ochr â'r prawf MOT. Roedd hwn yn brawf manylach a oedd yn cydymffurfio â Safonau Archwilio Cenedlaethol Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat, a grëwyd gan Sefydliad Trafnidiaeth Cludo Nwyddau. Roedd nifer o awdurdodau drwy'r Deyrnas Gyfunol yn defnyddio'r safonau hyn. Roedd copi drafft o'r prawf cydymffurfio arfaethedig i'w weld yn Atodiad B.

Y bwriad oedd profi pob cerbyd dan 10 oed ddwywaith y flwyddyn. Byddai cerbydau dros 10 oed yn cael eu profi deirgwaith y flwyddyn.

Petai'r polisi'n cael ei weithredu, byddai'r polisi profi presennol yn dod i ben a byddai cerbydau'n derbyn Tystysgrif Prawf Eithrio rhag MOT. Dan y gyfundrefn newydd, byddai cerbydau'n cael tystysgrif MOT a chopi o ganlyniadau'r prawf cydymffurfio a wnaethant.

Yn ôl yr Uwch Swyddog Trwyddedu (Technegol), rhagwelwyd y byddai'r gyfundrefn brofi arfaethedig yn fanteisiol am y rhesymau hyn:

- Byddai'n arwain at drefn gwyno gadarn, wedi'i gweinyddu gan y DVSA, pe bai cerbyd yn methu prawf;
- Byddai gan y DVSA rym i ddiddymu hawl gorsafoedd profi i gynnal profion MOT;
- Roedd canlyniadau pob prawf MOT yn cael eu cyhoeddi ar-lein, felly roedd gan yr Adran Drwyddedu gofnod digidol hawdd mynd ato.
- Roedd cerbydau trwyddedig yn llai tebygol o gael eu stopio gan yr heddlu am beidio â chael MOT dilys a gorfod dangos eu tystysgrif eithrio.

Yn ôl yr Uwch Swyddog Trwyddedu (Technegol), gofynnwyd am wybodaeth oddi wrth Adrannau Trwyddedu Awdurdodau Lleol Cymru. Holwyd a oeddent yn gofyn am brawf MOT ar hyn o bryd, Os oeddent, a oedd y Cyngor yn cynnal y prawf yn fewnol yn ei orsaf brofi ei hun. Daeth data i law oddi wrth 15 o Awdurdodau Lleol yng Nghymru. Roedd 12 o'r 15 Awdurdod ar hyn o bryd yn gofyn i gerbydau hacni neu gerbydau hurio preifat gael tystysgrif MOT. Manylwyd ar yr ymatebion a gafwyd yn yr adroddiad.

Pe'i cymeradwyid, byddai ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei gynnal a byddai holl berchnogion cerbydau'n cael llythyr yn eu gwahodd i gynnig sylwadau.

Gofynnodd yr aelodau am eglurder ynghylch profi ddwywaith a theirgwaith y flwyddyn. Esboniodd yr Uwch Swyddog Trwyddedu (Technegol) y byddai cerbydau dros 10 oed yn cael eu profi deirgwaith y flwyddyn ac y byddai cerbydau dan 10 oed yn cael eu profi ddwywaith y flwyddyn. Byddai hyn yn gam tuag at sicrhau cydnawsedd â pholisïau Bro Morgannwg.

Cododd un aelod bryder y gallai profi deirgwaith y flwyddyn fod yn ormodol, yn arbennig os mai dim ond un neu ddwy daith yr oedd cerbyd hŷn yn ei gwneud. Esboniodd y Swyddog Polisi Trwyddedu fod yr hyn sy'n cael ei gynnig yn llai beichus na'r system

bresennol. Ategodd y dylai'r ymatebion gadarnhau a oedd y fasnach yn ystyried bod hyn yn rhy feichus.

Roedd yr aelodau'n gytûn bod cael system brofi gadarn ar ôl deng mlynedd yn bwysig ac yn hanfodol o ran diogelwch y cyhoedd. Dywedodd yr aelodau ei bod yn braf clywed bod arogl cerbyd wedi i yrwyr tacsis fod yn ysmygu ynddo yn un o'r gwiriadau ychwanegol a oedd yn cael eu cynnig.

Dywedodd yr Uwch Swyddog Trwyddedu (Technegol) bod cerbydau, yn ei phrofiad hi, fel arfer yn gadael fflyd wrth iddynt heneiddio, a hynny am fod yr archwiliadau'n llymach. Roedd cerbydau eraill yn cael eu cynnal a'u cadw at safon uchel iawn ac nid oeddent yn cael eu defnyddio'n aml, felly roedd yn bwysig taro'r cydbwysedd iawn.

PENDERFYNIAD: Rhoddodd y Pwyllgor Trwyddedu ei sêl bendith i ymgynghori â'r cyhoedd a chyda'r fasnach dacsis leol ynghylch y cynigion i ddiwygio'r gofynion profi o ran cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat.

8. CANLLAWIAU POLISI OEDRAN CERBYDAU HACNI/CERBYDAU HURIO PREIFAT

Cyflwynodd y Swyddog Polisi Trwyddedu adroddiad a oedd yn ystyried addasrwydd y polisi oedran presennol o ran cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat. Gofynnai'r adroddiad hefyd i'r aelodau gymeradwyo ymgynghoriad ynghylch diwygio'r canllawiau a oedd yn ymwneud â pholisi oedran cerbydau.

Esboniodd fod y Pwyllgor Trwyddedu, ar 10 Mawrth 2008, wedi cymeradwyo'r polisïau presennol a oedd yn ymwneud â'r oedran y gallai cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat fod er mwyn iddynt gael eu trwydded gyntaf, ac roedd gofyn i gerbydau hacni a cherbydau hurio preifat fod yn newydd wrth eu cyflwyno i gael eu trwydded gyntaf. Fodd bynnag, roedd darpariaethau a alluogai'r Is-bwyllgor Trwyddedu i ystyried cerbydau hurio preifat hŷn ar eu rhagoriaethau eu hunain. Gellid trwyddedu cerbydau a oedd yn hygyrch i gadeiriau olwyn hyd at dair oed fel cerbyd hacni neu gerbyd hurio preifat hefyd, ar yr amod y gellid darparu hanes cyflawn o'r gwasanaeth yr oedd y cerbyd wedi'i gael a thystysgrif diogelwch.

Y bwriad oedd diwygio'r canllawiau'r polisi oedran a chyflwyno dau ddosbarth o gerbydau. Dosbarth un oedd cerbydau aml ddefnydd (MPV), salŵn safonol neu gerbydau a oedd yn hygyrch i gadeiriau olwyn heb lifft cadair olwyn wedi'i awtomeiddio. Dosbarth dau oedd cerbydau a oedd yn hygyrch i gadeiriau olwyn â lifft cadair olwyn wedi'i awtomeiddio.

Byddai cerbydau dosbarth un, wrth eu cyflwyno i gael eu trwydded gyntaf, dan 5 oed a byddai cerbydau dosbarth dau, wrth eu cyflwyno i gael eu trwydded gyntaf, dan 10 oed. Y nod oedd cydnabod y gost afresymol o uchel o brynu cerbyd dosbarth dau a natur y gwaith yr oedd y cerbyd hwnnw'n ei wneud, am ei fod yn llai tebygol o achosi traul ar y cerbyd.

Esboniodd y Swyddog Polisi Trwyddedu fod y fasnach leol wedi gofyn i'r Cyngor adolygu'r hyn a ystyriai'n faich. Golygai boch yn rhaid i berchnogion cerbydau brynu cerbydau newydd sbon er mwyn cael eu trwydded gyntaf. Mynegwyd y byddai'r polisi arfaethedig yn caniatáu i berchnogion newid eu cerbydau'n amlach a, phan oeddent yn newid eu cerbydau, byddent yn gallu prynu cerbyd o safon uwch i siwtio'u poced nhw. Byddai hyn, yn ei dro, yn gwella ansawdd gyffredinol y cerbydau a drwyddedwyd yn y Fwrdeistref Sirol.

Esboniodd y Swyddog Polisi Trwyddedu fod grwpiau anableddau wedi sôn wrth yr Adran Drwyddedu eu bod yn cael anhawster mynd i mewn i gerbydau a oedd yn hygyrch i gadeiriau olwyn. Ar hyn o bryd, nid oedd gan yr Adran ddealltwriaeth glir o anghenion teithwyr anabl, felly cytunwyd i gynnwys cwestiynau yn yr ymgynghoriad ynghylch y ffyrdd posib o wella'r ddarpariaeth i deithwyr anabl.

Byddai'r canllawiau arfaethedig o ran y polisi oedran yn sicrhau cydnawsedd rhwng polisi Pen-y-bont ar Ogwr a pholisi Bro Morgannwg, a oedd yn rhan o'r Cydwasaneth Rheoleiddio. Pe'i cymeradwyid, byddai ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei gynnal a byddai holl berchnogion cerbydau'n cael llythyr yn eu gwahodd i gynnig sylwadau.

Dywedodd un aelod bod croeso mawr i'r adroddiad ac y byddai'n caniatáu i'r Is-bwyllgor roi trwyddedau i gerbydau mewn cyflwr eithriadol o dda, a fyddai, dan y polisi presennol, yn cael eu gwrthod.

Esboniodd y Swyddog Polisi Trwyddedu y byddai'r ymgynghoriad yn cael ei gynnal ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ac y byddai'r Cyngor hefyd yn cysylltu â pherchnogion cerbydau a grwpiau anableddau.

PENDERFYNIAD: Rhoddodd y Pwyllgor Trwyddedu ei sêl bendith i gynnal ymarfer ymgynghori â'r cyhoedd a chyda'r fasnach dacsis leol ynghylch y cynigion i ddiwygio'r polisi oedran o ran cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat.

9. MATERION BRYS

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.20 am

**BRIDGEND COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**REPORT TO LICENSING COMMITTEE**

**11 DECEMBER 2017**

**REPORT OF THE CORPORATE DIRECTOR OPERATIONAL AND PARTNERSHIP SERVICES**

**EQUALITY ACT 2010**

**1. Purpose of Report.**

1.1 The purpose of the report is to:

- To provide information to Members in relation to Section 165 and 167 of the Equality Act 2010.

- To determine whether to maintain a list of designated vehicles in accordance with the Equality Act 2010.

**2. Connection to Corporate Improvement Objectives/Other Corporate Priorities**

2.1 The proposals are necessary to enable the Council to discharge its functions as a taxi licensing authority.

**3. Background.**

3.1 This report is to provide information to Members in respect of Sections 165 and 167 of the Equality Act 2010 which were recently commenced.

3.2 Section 165 of the Act places a legal requirement on drivers of all licensed hackney carriage and private vehicles, which are wheelchair accessible, to carry passengers in wheelchairs, provide assistance to those passengers, and prohibits them from charging extra for the fare.

3.3 Section 167 of the Act provides Local Authorities with powers to publish a list of "designated vehicles" i.e. hackney carriage and private hire vehicles that are wheelchair accessible.

3.4 Members are being asked to determine whether the Council should publish and maintain a list of designated vehicles in accordance with the requirements of the Equality Act 2010.

**4. Current situation / proposal.**

4.1 On the 6th April 2017, Section 165 and 167 of the Equality Act 2010 were commenced.

4.2 Section 165 of the Equality Act 2010 places specific ‘duties’ on the driver of a "designated vehicle" i.e. hackney carriage and private hire vehicles that are wheelchair accessible. These duties are:

- To carry the passenger while in the wheelchair;
- Not to make any additional charge for doing so;
- If the passenger chooses to sit in a passenger seat, to carry the wheelchair;
- To take such steps as are necessary to ensure that the passenger is carried in safety and reasonable comfort;
- To give the passenger such mobility assistance as is reasonably required: to enable the passenger to get into or out of the vehicle; if the passenger wishes to remain in the wheelchair, to enable the passenger to get into and out of the vehicle while in the wheelchair; to load the passenger's luggage into or out of the vehicle; if the passenger does not wish to remain in the wheelchair, to load the wheelchair into or out of the vehicle.

4.3 Section 167 of the Act provides the Council with the powers to make lists of wheelchair accessible vehicles (i.e. “designated vehicles”). Whilst Local Authorities are under no specific legal obligation to maintain a list under the Act, the Government recommends strongly that they do so. Without such a list, the requirements of Section 165 of the Act would not apply. The Council currently has in place conditions and byelaws which require drivers to assist passengers with reasonable amounts of luggage, to give reasonable assistance and to take a disabled person with a guide, hearing or other assistance dog unless they have a medical exemption.

4.4 Some drivers may have a medical condition or a disability or physical condition which makes it impossible or unreasonably difficult for them to provide the sort of physical assistance which these duties require. That is why the Act allows the Council to grant exemptions from the duties to individual drivers.

4.5 Drivers who have been granted an exemption will be issued with a notice, which must be displayed in the vehicle.

4.6 A draft list of "designated vehicles" has been produced and it is proposed that any hackney carriage or private hire vehicle that is capable of carrying a wheelchair (with the user in situ), be included on the list. There are currently 34 hackney carriages and 16 private hire vehicles that have this ability (numbers correct at time of writing report).

4.7 The designated vehicles list will need to be maintained and it is proposed that an updated list be published on the Council’s website on a monthly basis.

4.8 Should Members agree that the Council publish and maintain a list of designated vehicles, then information in respect of the driver responsibilities, medical exemptions and appeals will be circulated to all licensed drivers and where appropriate drivers can then apply for an exemption.

4.9 It is proposed that the first list of designated vehicles be published on the 1st March 2018. This will allow sufficient time for drivers who need to apply for an exemption to arrange for a medical assessment to be undertaken with their own G.P and for any applications to be determined by the General Licensing Committee.

4.10 The published list will detail the vehicle licence number, registration, make and model, and whether the vehicle is a hackney carriage or for private hire use only.

4.11 Once the list is published, it will be an offence for the driver (unless exempt) of a hackney carriage or private hire vehicle which is on the designated list to fail to comply with the duties listed above.

**5. Effect upon Policy Framework & Procedure Rules.**

5.1 There is a right of appeal against a decision to include a vehicle on the designated list to the Magistrates' Court.

5.2 There is a right of appeal against a decision to refuse to grant an exemption certificate to the Magistrates' Court.

**6. Equality Impact Assessment**

6.1 A Screening Assessment has been undertaken to assist the Council in implementing an administrative process for taxi/private hire operators/drivers in line with the Equality Act 2010 and it is not anticipated that this will have any effect on their service users

**7. Financial Implications.**

7.1 There is no direct financial impact on the Council. All costs are contained within existing budgets.

**8. Recommendation.**

8.1 It is recommended that members:

- Approve the proposal to publish and maintain a list of designated vehicles in accordance with the Equality Act 2010.

**P A Jolley**
**Corporate Director Operational and Partnership Services**

**Date – report send out**

**Contact Officer:** Daniel Cook
Licensing Policy Officer

**Telephone:** (029) 2087 1022

**E-mail:** licensing@bridgend.gov.uk

**Postal Address** Licensing
Bridgend County Borough Council
Civic Offices
Angel Street

Bridgend
CF31 4WB

**Background documents**

None